
Hawdd ei Ddeall

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

# Ein cynllun ar gyfer trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru



Mawrth 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Tyfu Canolbarth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.tyfucanolbarth.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddarllen gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


Beth ydy'r cynllun yma ........ 4

Beth rydyn ni eisiau ei weld ........ 6

Am Ganolbarth Cymru ........ 8

Pam rydyn ni angen y cynllun yma ........ 9

Beth rydyn ni eisiau ar gyfer Canolbarth Cymru ........ 12

Ein nodau ........ 13

Beth fyddwn ni'n ei wneud ........ 15

Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan ........ 17

Edrych ar gynnydd ........ 18

Ble i ddarganfod mwy ........ 19

# Beth ydy'r cynllun yma



Tyfu Canolbarth Cymru ydyn ni. Mae'r cynllun yma am sut y byddwn ni'n gwella trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru.

Mae trafnidiaeth yn meddwl ffyrdd i bobl deithio, fel:



- Bysiau




- Trenau



- Cerdded



- Beicio.



Mae’r cynllun yma yn cynnwys Powys a Cheredigion. Gyda’i gilydd, mae’r ardaloedd yma yn ffurfio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru.



Y nod ydy helpu pobl i deithio’n hawdd, yn ddiogel, ac mewn ffyrdd sy’n dda i natur a’r blaned.

## Pwy sy’n rhan o’r cynllun



Mae’r grwpiau yma yn gweithio gyda’i gilydd:

- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Llywodraeth Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Grwpiau eraill a chymunedau lleol.

# Beth rydyn ni eisiau ei weld

**Rydyn ni eisiau trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru i fod yn:**



- Hawdd i bawb ei ddefnyddio.



- Da i'r blaned.



- Gweithio'n dda.



- Cysylltu pobl a lleoedd.



- Cefnogi swyddi, cymunedau a diwylliant. Mae diwylliant yn meddwl y pethau  mae pobl yn eu gwneud yn eu cymuned, fel gwyliau, celf a cherddoriaeth.

# Am Ganolbarth Cymru



Mae Canolbarth Cymru yn gefn gwlad yn bennaf, gyda threfi, pentrefi, ffermydd, a’r arfordir.



Mae tua 205 mil o bobl yn byw yma.



Mae mwy o bobl hŷn yn byw yma nag o’r blaen.



Mae’n bwysig helpu pawb i gyrraedd y lleoedd maen nhw eu hangen.

# Pam rydyn ni angen y cynllun yma

**Some people find it hard to travel in Mid Wales:**



- Mae’n gallu bod yn anodd mynd i’r gwaith, yr ysgol, neu wasanaethau iechyd, fel y meddyg neu’r ysbyty. Mae hyn yn anoddach yng nghefn gwlad a phentrefi bach.



- Mae ffyrdd yn gallu bod yn brysur neu’n anodd eu defnyddio.



- Does gan rai lleoedd ddim bysiau na threnau, neu dydyn nhw ddim yn rhedeg yn aml iawn.



- Does gan bawb ddim digon o arian i deithio'n hawdd.



Rydyn ni eisiau datrys y problemau yma a gwneud teithio yn deg i bawb.

## Trafnidiaeth nawr



Mae bysiau, trenau, ffyrdd a llwybrau beicio yng Nghanolbarth Cymru.



Mae llawer o bobl yn defnyddio ceir oherwydd nad ydy bysiau a threnau yn cyrraedd pob man yng Nghanolbarth Cymru.

**Rydyn ni eisiau i fwy o bobl:**



- Defnyddio bysiau a threnau



- Cerdded



- Beicio



- Olwynio – fel defnyddio cadair olwyn neu sgwter symudedd.

# Beth rydyn ni eisiau ar gyfer Canolbarth Cymru

**Rydyn ni eisiau:**



Gwneud hi’n haws i bawb fynd i’r gwaith, yr ysgol, gwasanaethau iechyd, a lleoedd ar gyfer hwyl.



Gwneud trafnidiaeth yn fwy diogel a glanach.



Helpu pobl sydd yn gallu ei chael hi’n anodd teithio. Fel pobl hŷn, pobl anabl, neu unrhyw un sydd angen cymorth ychwanegol.



Cefnogi swyddi, busnesau, a phobl sy’n ymweld am wyliau neu ddiwrnodau allan.

# Ein nodau

**Rydyn ni eisiau:**



Pawb i allu mynd i'r gwaith, yr ysgol, meddygon, a lleoedd eraill maen nhw eu hangen.



Teithio ar fws, trên, cerdded, beicio, neu olwynio i fod yn hawdd.



Teithio o amgylch Canolbarth Cymru i fod yn hawdd.



Mwy o bobl i ddefnyddio ffyrdd eraill o deithio, nid ceir yn unig.



Llwybrau mwy diogel ar gyfer cerdded, beicio ac olwynio.



Nwyon llai niweidiol o drafnidiaeth.



Ffyrdd a thrafnidiaeth i fod yn ddiogel ac yn gweithio’n dda, hyd yn oed mewn tywydd gwael.



Mae’n hawdd newid o un math o drafnidiaeth i’r llall, fel o fws i drên.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

**Fe fyddwn ni yn:**



Gwneud prif ffyrdd a rheilffyrdd yn well.



Darparu mwy o fysiau a choetsys i helpu pobl i symud o gwmpas.



Adeiladu llwybrau a llwybrau beicio newydd, a lleoedd i barcio beiciau.



Rhoi mwy o wybodaeth am deithio. Fel dweud wrthych chi pryd mae'r bws nesaf yn dod mewn arosfannau bysiau.



Gwneud ffyrdd yn fwy diogel a stopio damweiniau.



Darparu mwy o bwyntiau gwefru ceir trydan a bysiau gwyrddach.




Helpu pobl gyda cheir sydd yn cael eu rhannu a thrafnidiaeth arbennig.



Dweud wrth bobl am ffyrdd o deithio sy’n well i natur a’r blaned.

# Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan

**Rydyn ni eisiau i bawb gael dweud eu dweud. Rydych chi'n gallu:**




- Cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r rhain yn arolygon neu gyfarfodydd lle mae pobl yn gallu rhoi eu syniadau.



- Rhannu eich syniadau ar-lein neu mewn digwyddiadau cymunedol.




- Siarad â'ch cyngor lleol am y problemau trafnidiaeth sydd gennych chi.



Mae croeso i syniadau pawb. Fe fydd eich adborth yn helpu i wella trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru.

# Edrych ar gynnydd

**Fe fyddwn ni'n edrych i weld os ydy'r cynllun yn gweithio bob blwyddyn. Fe fyddwn ni yn:**




- Edrych ar beth rydyn ni wedi'i wneud o'n cynllun.




- Rhannu adroddiad bob blwyddyn i ddangos beth rydyn ni wedi'i wneud.



- Gwneud newidiadau os oes angen.




Fe fydd adolygiad llawn yn digwydd ar ôl 3 blynedd i wneud yn siŵr bod y cynllun yn gweithio.

# Ble i ddarganfod mwy

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy:**




- Ymweld â gwefan eich cyngor lleol.

- Chwilio am ddiweddariadau ar wefannau Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.



- Gofyn am gopïau printiedig o ddogfennau'r cynllun trafnidiaeth yn swyddfeydd neu lyfrgelloedd y cyngor.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247